# Adroddiad Materion yn Codi ar gyfer Cyngor Cymuned y Fali Archwiliad ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2016

BDO

Cyflwyniad

Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi i dynnu sylw Cyngor Cymuned y Faliat eitemau. Daeth y materion hyn i sylw BDO LLP yn ystod archwiliad y ffurflen flynyddol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben 31 Mawrth 2016.

Efallai na fydd archwiliad y ffurflen flynyddol yn datgelu pob gwendid yn y systemau gan ei bod yn bosibl na fydd pob mater wedi dod i sylw'r archwilydd. Oherwydd hyn, efallai nad y materion a godwyd yw'r unig rai sy'n bodoli.

Mae'r materion a restrir isod yn cael eu hesbonio'n fanylach ar y dudalen/y tudalennau sy'n dilyn

- Y Broses Gyllidebu
- Mae angen manylion ychwanegol ar lythyr penodi'r archwilydd mewnol

**Mae'r materion canlynol wedi cael eu codi er mwyn helpu'r Cyngor. Argymhellir bod y Cyngor yn gweithredu ar y materion canlynol er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gweithredu o fewn ei fframwaith statudol.**

**Y Broses Gyllidebu**

*Beth yw'r mater?*

Er bod praesept wedi'i osod erbyn y dyddiad a bennwyd a bod cyllideb wedi'i pharatoi, ni wnaeth y cyngor waith monitro digonol ar y gyllideb yn ystod y flwyddyn ariannol.

*Pam mae'r mater wedi cael ei godi*

Mae'r cyngor wedi dangos potensial o ddiffyg rheolaeth ariannol dros wario a derbyn arian cyhoeddus ac roedd yn agored i'r risg o orwario.

*Beth yw'n hargymhelliad i chi?*

Rhaid i'r Cyngor adolygu'r gyllideb yn rheolaidd, a rhaid sicrhau fod yr adolygiad hwn o'r gyllideb yn erbyn yr incwm a'r gwariant gwirioneddol yn cael ei gofnodi. Argymhellwn bod y Cyngor yn monitro ei gyllideb o leiaf bob chwarter neu'n amlach na hynny os oes angen. Bydd faint o fonitro cyllideb sy'n digwydd yn ystod y flwyddyn yn dibynnu ar faint y Cyngor ac ar gymhlethdod ei gyllid.

Mae modd cael arweiniad pellach ar y mater hwn o'r ffynhonnell/ffynonellau canlyn

Llywodraethu ac Atebolrwydd ar gyfer Cynghorau Lleol yng Nghymru - Canllawiau i Ymarferwyr, Un Llais Cymru/CCCLl

**Ni ddaeth unrhyw faterion eraill i'n sylw.**

Dros ac ar ran
BDO LLP

Dyddiad:13 Medi 2016